Hawdd ei Ddeall

Sefydliad Cymunedol Cymru

# Cronfa Gwaddol Cynnal

## Cyllid i grwpiau



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Sefydliad Cymunedol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cynnal Endowment Fund**'.

**2025**

# Am y llyfryn yma

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond mae'n bosib bydd angen cymorth arnoch chi i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **Ni**, mae hyn yn meddwl **Sefydliad Cymunedol Cymru**. Am fwy o wybodaeth neu gefnogaeth cysylltwch â:




**Gwefan:** communityfoundationwales.org.uk/cy/



**Ebost:** grants@communityfoundationwales.org.uk



**Ffôn:** 02920 379580

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hon, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

Cyflwyniad ........ 4

Nodau'r gronfa ........ 5

Faint rydych chi'n gallu gwneud cais amdano? ........ 6

Pwy sy'n gallu gwneud cais? ........ 7

Sut i wneud cais ........ 8

Cyllid am fwy na blwyddyn ........ 10

Cyllid craidd ........ 11

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ........ 12

# Cyflwyniad


Hawdd ei Ddeall

Sefydliad Cymunedol Cymru

Cronfa Gwaddol Cynnal

Cyllid i grwpiau

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Sefydliad Cymunedol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cynnal Endowment Fund**'.

2025

Mae'r ddogfen yma am **Gronfa Gwaddol Cynnal**.

Mae'n dweud:



- Beth ydy nod y gronfa.



- Pwy sy'n gallu gwneud cais.





- Faint rydych chi'n gallu gwneud cais amdano.




- Sut i wneud cais.

# Nodau'r gronfa



Mae'r gronfa yma ar gyfer plant a phobl ifanc yn Ynys Môn a Gwynedd.

Nod y gronfa yma ydy cefnogi prosiectau addysg yng Ngwynedd ac Ynys Môn gyda:



- Gweithgareddau sy'n cefnogi plant hyd at 18 oed..



- Prosiectau ysgolion a cholegau sy'n cefnogi hyfforddiant ar gyfer swyddi, materion iechyd a byw'n iach.

# Faint rydych chi'n gallu gwneud cais amdano?




Rydych chi'n gallu gwneud cais am hyd at £1000 y flwyddyn, am hyd at 3 blynedd.



Mae'r grantiau i dalu **costau cyfalaf** a chostau rhedeg.



Mae **costau cyfalaf** yn meddwl pethau fel offer, adeiladau a phethau eraill.

# Pwy sy'n gallu gwneud cais?



- Elusennau a sefydliadau cymunedol sy'n darparu gweithgareddau addysgol.



- Cymdeithasau Rhieni-Athrawon.



- Prosiectau ysgol sy'n ychwanegol i'r pynciau sydd yn cael eu dysgu yn yr ysgol.

# Sut i wneud cais




Mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen gais ar-lein. Mae hwn ar ein gwefan: [communityfoundationwales.org.uk/cy/grants/cronfa-waddol-cynnal](communityfoundationwales.org.uk/cy/grants/cronfa-waddol-cynnal)

**Pethau pwysig i'w gwybod:**




- Dydyn ni **ddim yn gallu** talu am unrhyw beth sydd wedi digwydd o'r blaen:



  - Rydyn ni yn anfon llythyr cynnig i chi.




  - Rydych chi'n anfon copi wedi'i lofnodi o'r telerau ac amodau i ni.



- Dydych chi ddim yn gallu defnyddio'r gronfa yma i gefnogi grwpiau ac elusennau eraill.




- Mae'n rhaid i chi wario'r holl arian o fewn 1 flwyddyn i dderbyn ein llythyr cynnig.



- Rhaid i chi ddangos yn glir yn eich cais pam mae angen yr arian yma.

# Cyllid am fwy na blwyddyn




Rydych chi'n  gallu gwneud cais am hyd at 3 blynedd o gyllid o'r gronfa yma. Rydyn ni'n ei alw'n **Gyllid Blwyddyn Lluosog**.



Rydych chi'n gallu parhau i ddefnyddio'r cyllid yma ar gyfer prosiectau 1 flwyddyn. Ac ar gyfer prynu eitemau bach a phethau rydych chi eu hangen sy'n bodloni nodau'r gronfa hon.



Os ydych chi eisiau cyllid am 3 blynedd, rhaid i chi ddangos pam mae rydych chi ei angen yn eich ffurflen gais.




Os na fyddwch chi yn derbyn cyllid 3 blynedd, efallai y byddwch chi yn dal i gael cyllid am flwyddyn.

# Cyllid craidd



Mae cyllid craidd yn talu costau rhedeg eich sefydliad. Rydych chi'n gallu ei wario ar bethau fel cyflogau staff a biliau.



Mae'n gallu bod yn anodd dod o hyd i gyllid craidd.

Mae grwpiau nawr yn gallu gwneud cais am gyllid tuag at eu costau craidd am hyd at dair blynedd. Cyn belled â:




- Rydych chi'n gallu darparu eich cyfrifon am y 12 mis diwethaf.



- Mae'r swm rydych chi yn gwneud cais amdano yn llai na hanner eich incwm blynyddol. Er enghraifft, os ydych chi am wneud cais am 1,000 o bunnoedd y flwyddyn, rhaid i'ch incwm fod o leiaf 2,000 o bunnoedd y flwyddyn.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015




Mae hon yn deddf am wella bywyd yng Nghymru i bobl nawr, ac yn y dyfodol.

Er mwyn cyflawni amcanion y ddeddf yma, mae'n rhaid i ni:



- Meddwl am sut mae ein penderfyniadau yn gallu effeithio ar bobl yn y dyfodol.



- Gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a sefydliadau eraill.



- Gweithio gyda'n gilydd i stopio problemau fel **tlodi**, **anghydraddoldeb iechyd** a **newid yn yr hinsawdd**.



**Tlodi** ydy pan nad oes gan rywun ddigon o arian i fyw arno.



Mae **anghydraddoldeb iechyd** yn meddwl nad ydy pobl bob amser yn cael cyfle cyfartal i gael iechyd da. Er enghraifft, efallai oherwydd lle maen nhw'n byw.




Mae **newid yn yr hinsawdd** yn meddwl bod y blaned yn mynd yn boethach. Mae hyn oherwydd pethau fel y tanwydd rydyn ni'n ei ddefnyddio sy'n niweidio'r blaned.



Rydyn ni eisiau i sefydliadau gydweithio'n well.



Rydyn ni eisiau i sefydliadau feddwl am sut mae eu gwaith yn cyd-fynd â gwaith arall sy'n digwydd.



Yn eich cais, meddyliwch am y pethau yma.



Esboniwch eich cynlluniau ar hyn o bryd a'r dyfodol. Rydyn ni eisiau gweld sut rydych chi'n bwriadu gweithio gydag eraill.